TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

BTEC Diploma Cenedlaethol mewn Peirianneg Fecanyddol Lefel 3

Yn gryno

Mae'r cwrs dwy flynedd hwn - a gydnabyddir fel rhan o'r Fframwaith Prentisiaeth - yn arbenigol iawn a bydd yn rhoi i chi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau i'ch paratoi ar gyfer gwaith ym maes peirianneg fecanyddol a gweithgynhyrchu

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un sy'n dymuno gweithio yn y diwydiannau peirianneg neu weithgynhyrchu.

...y rhai hynny sy'n dymuno datblygu eu gyrfa bresennol a symud ymlaen i addysg uwch, gradd a rhaglenni datblygiad proffesiynol.

Cynnwys y cwrs

Bydd angen i chi gael dealltwriaeth dda o fathemateg a gwyddoniaeth a mwynhau datrys problemau cymhleth i ddylunio cylchedau, adeiladu a chanfod diffygion, yn ogystal ag

ymrwymiad llawn i fynychu a gallu gweithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm.

Mae'r cwrs ei hun yn cynnwys prosiectau ac aseiniadau yn seiliedig ar sefyllfaoedd gwaith go iawn, gan ddefnyddio cymysgedd o sesiynau ymarferol yn y gweithdy/labordy, sesiynau yn yr ystafell ddosbarth, arddangosiadau, ymweliadau â chwmnïau a siaradwyr gwadd o'r diwydiant. Ymhlith y pynciau y byddwch yn ymdrin â nhw mae:

Iechyd a diogelwch yn y gweithle peirianneg
Cyfathrebu ar gyfer technegwyr peirianneg
Mathemateg ar gyfer technegwyr peirianneg
Systemau a dyfeisiau electro-niwmatig/hydrolig
Prosiect peirianneg
Egwyddorion a chymwysiadau mecanyddol
Nodweddion deunyddiau peirianegol a'u defnydd
Drafftio gyda chymorth cyfrifiadur ym maes peirianneg
Prosesau ffurfio cynradd peirianegol
Technegau gorffen ac eilaidd peirianegol
Egwyddorion mecanyddol pellach
Mathemateg bellach ar gyfer technegwyr peirianneg (opsiynol)

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau (a fydd yn cael eu graddio ar lefel llwyddo, teilyngdod neu ragoriaeth), adroddiadau, profion byr, gwaith ymarferol a gwaith portffolio cyn ennill Diploma Lefel 3 mewn Peirianneg Fecanyddol/Gweithgynhyrchu (120 credyd), y gallech wedi hynny fynd ymlaen i HNC Peirianneg Fecanyddol neu Weithgynhyrchu yn Coleg Gwent neu gyrsiau eraill ar lefel prifysgol, Prentisiaeth neu gyflogaeth yn y sector peirianneg.

Gofynion Mynediad

Byddwch angen o leiaf 5 TGAU ar radd C neu uwch, gan gynnwys C mewn TGAU Saesneg neu Gymraeg Iaith a B mewn Mathemateg, ynghyd â thair gradd C arall (yn ddelfrydol mewn Gwyddoniaeth neu bynciau cysylltiedig), neu gymhwyster Lefel 2 priodol gyda phroffil Teilyngdod.

Gwybodaeth Ychwanegol

Os ydych yn dilyn Prentisiaeth ffurfiol, mae'n bosibl y bydd angen i chi wneud cwrs ychwanegol i gwblhau'r sgiliau hanfodol sy'n ofynnol. Byddwch angen eich offer ysgrifennu eich hunain, h.y. ffolderi, rhanwyr pwnc, pinnau ysgrifennu, pensiliau, cwmpawd, pren mesur a chyfrifiannell wyddonol.